**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (119)**

**Pleidleisiau A Thrafodion Dydd Mawrth, 22 Chwefror 2005**

## Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm

**Cynnig i benodi aelod i'r Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol**

NDM2291 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â pharagraff 1(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penodi Christine Chapman AC (Llafur) yn aelod y Cynulliad Cenedlaethol ar Gyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol Cymru, yn lle Huw Lewis AC (Llafur).

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 40; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 40
**Derbyniwyd y cynnig**

......................................

**2.01pm**
**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**
Atebwyd y 10 cwestiwn cyntaf.

......................................

**2.59pm**
**Cwestiwn Brys**

**William Graham;** A wnaiff y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddatganiad ar y camau a gymerwyd i sicrhau bod asiantaethau ledled Cymru a'r DU yn cydgysylltu yn effeithiol i ddarganfod cynhyrchion bwyd sy'n cynnwys y llifyn Sudan 1, a chael gwared arnynt o'r gadwyn fwyd.

......................................

**3.07pm**
**Datganiad Busnes**

Bu i dros 10 Aelod wrthwynebu’r datganiad busnes.
Cynhaliwyd pleidlais ar y datganiad busnes:
O Blaid 29; Ymatal 0; Yn erbyn 25; Cyfanswm 54
Cytunwyd ar y datganiad busnes

......................................

**3.21pm**
*Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni’n syth*

**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25, 25.13 a 25.14**

NDM2292 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 24.25, 25.13 a 25.14:

1. Yn cymeradwyo'r rheoliadau drafft, Rheoliadau Plaleiddiaid (Lefelau Gweddillion Uchaf mewn Cnydau, Bwyddyn a Phorthiant) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2005, y gosodwyd copïau o'r atodlenni yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Chwefror 2005; a

2. Yn nodi'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau hyn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 15 Chwefror 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
**Derbyniwyd y cynnig**

......................................

***3.22pm***
*Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni’n syth*

**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25**

NDM2293 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 24.25:

1. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Chwefror 2005, ar y rheoliadau drafft, Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol ag:
i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Ionawr 2005

ii) Atodiadau 1a, 1b, 1c ac 1d i'r Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2005
iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2005.

2. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Chwefror 2005 ar y gorchymyn drafft, Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2005 yn cael ei wneud yn unol ag:
i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Ionawr 2005; a
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 02 Chwefror 2005

3. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Chwefror 2005, ar y rheoliadau drafft, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau etc)(Cymru) (Diwygio) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau etc)(Cymru) (Diwygio) 2005 yn cael eu gwneud yn unol ag:
i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Ionawr 2005; a
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 02 Chwefror 2005

4. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Chwefror 2005, ar y rheoliadau drafft, Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd Cyffredinol) (Diwygio)(Cymru) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol ag:
i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Ionawr 2005; a
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 02 Chwefror 2005

5. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Chwefror 2005, ar Orchymyn drafft Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 21) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 21) 2005 yn cael ei wneud yn unol â'r Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Ionawr 2005

6. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Chwefror 2005 ar y rheoliadau drafft, Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymchwiliadau etc) (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymholiadau etc) (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol ag:
i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Ionawr 2005
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Ionawr 2005; a
iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 54; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 54
**Derbyniwyd y cynnig**

**....................................**

**3.23pm**
**Cynnig i gymeradwyo, o dan Reol Sefydlog 24.27(iv), Reoliadau Cynlluniau Cymorth a Thaliad Sengl y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2005**

NDM2294 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Cynlluniau Cymorth a Thaliad Sengl y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2005, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 15 Chwefror 2005.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn sicrhau bod y Taliad Sengl yn cael ei wneud i ffermwyr ar y cyfle cyntaf.

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn credu na ddylai'r Taliad Sengl newydd effeithio'n andwyol ar ffermwyr sydd wedi gostwng eu lefelau stocio er mwyn trosglwyddo i gynhyrchu'n organig neu i gychwyn ar gynllun amaeth-amgylcheddol.

**Gwelliant 3 - David Melding (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i wneud pob ymdrech i sicrhau bod y taliadau yn cael eu gwneud ar amser.

**Gwelliant 4 - David Melding (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi mecanweithiau cymorth priodol yn eu lle er mwyn helpu ffermwyr yn ystod y cyfnod pontio pwysig hwn.

**Gwelliant 5 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn credu bod y cynllun yn cyfyngu’n ddiangen gan y gallai ffermwyr sy’n gwneud camgymeriad gyda’r blynyddoedd cyfeirio gael eu cosbi dro ar ôl tro drwy gydol y cyfnod hawlio.

**Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1 i egwyddor y Rheoliadau**
O blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 50
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2 i egwyddor y Rheoliadau**
O blaid 22; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 51
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3 i egwyddor y Rheoliadau**
O blaid 22; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 51
**Gwrthodwyd Gwelliant 3**

**Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4 i egwyddor y Rheoliadau**
O blaid 20; Ymatal 1; Yn erbyn 29; Cyfanswm 50
**Gwrthodwyd Gwelliant 4**

**Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5 i egwyddor y Rheoliadau**
O blaid 16; Ymatal 7; Yn erbyn 29; Cyfanswm 52
**Gwrthodwyd Gwelliant 5**

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau**
O blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
**Cymeradwywyd egwyddor y Rheoliadau**

NDM2295 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cynlluniau Cymorth a Thaliad Sengl y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 15 Chwefror 2005.

*Noder: Ni osodwyd Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, gan fod Cabinet y Cynulliad wedi datgymhwyso'r gofynion trefniadol o dan Reol Sefydlog 24.27 (i), (ii) a (iii).*

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau**
O blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49
**Cymeradwywyd y Rheoliadau**

**....................................**

**3.49pm**
**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005**

NDM2296 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Ionawr 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau**

O blaid 51; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 51
**Cymeradwywyd egwyddor y Rheoliadau**

NDM2297 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Chwefror 2005, mewn perthynas â'r rheoliadau drafft, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005; a

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol ag:
a) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Ionawr 2005; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Ionawr 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau**
O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50
**Cymeradwywyd y Rheoliadau**

**.....................................**

**4.00pm**
**Cynnig i benodi Archwilwyr newydd i archwilio cyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru**

NDM2298 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn unol ag adran 94(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penodi KTS Owens Thomas yn archwilydd cyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49
**Derbyniwyd y cynnig**

**.....................................**

**4.03pm**
**Dadl ar Adroddiad y Prif Swyddog Meddygol**

NDM2299 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn croesawu cyhoeddiad adroddiad y Prif Swyddog Meddygol: 'Statws Iechyd Cymru 2004-05', a osodwyd ar y rhyngrwyd ar 3 Chwefror 2005;

2. Yn cydnabod bod yr adroddiad yn darparu data llinell sylfaen y gellir ei ddefnyddio i fonitro cynnydd tuag

at well iechyd; a

3. Yn ategu cais yr adroddiad i Her Iechyd Cymru ddod yn ganolbwynt ymdrech genedlaethol bellach i gyrraedd targedau iechyd newydd ac i leihau anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu'r canlynol ar ddiwedd pwynt 2:
'ond yn nodi bod y cynnydd tuag at fodloni'r targedau iechyd wedi bod yn siomedig, yn enwedig mewn ardaloedd lle ceir amddifadedd mawr'

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn mynegi â phryder nad oes unrhyw arwydd o leihad mewn anghydraddoldebau iechyd er 1997, ac yn galw ar i fformiwla Townsend gael ei rhoi ar waith yn llawn.

**Gwelliant 3 - David Melding (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar i afiechydon y system anadlu, yn enwedig asthma mewn pobl ifanc, gael mwy o flaenoriaeth.

**Gwelliant 4 - David Melding (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn mynegi pryder nad yw'r rhan fwyaf o'r targedau iechyd wedi eu bodloni eto, ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i adolygu'r targedau.

**Gwelliant 5 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn nodi na lwyddwyd i gwrdd â'r targed i leihau nifer y marwolaethau o ganser yr ysgyfaint ac yn credu bod hyn yn rheswm arall pam y dylai'r Cynulliad gael y grym i wahardd ysmygu mewn mannau cyhoeddus.

**Gwelliant 6 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn nodi na lwyddwyd i gwrdd â'r rhan fwyaf o'r targedau gwella iechyd ar gyfer 2002 ac yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i weithio'n galetach i gwrdd â'r targedau iechyd newydd.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O Blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O Blaid 9; Ymatal 5; Yn erbyn 39; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O Blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd Gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O Blaid 15; Ymatal 9; Yn erbyn 29; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd Gwelliant 4**

**Gwelliant 5**
O Blaid 20; Ymatal 1; Yn erbyn 32; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd Gwelliant 5**

**Gwelliant 6**
O Blaid 6; Ymatal 18; Yn erbyn 29; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd Gwelliant 6**

**Y cynnig,**
O Blaid 53; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 53
**Derbyniwyd y cynnig**

**......................................**

**5.10pm**

**Dadl o dan Reol Sefydlog 6.6 ar 5ed Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb y Cynulliad Cenedlaethol**

NDM2300 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Gan weithredu o dan Reol Sefydlog 6.6, yn nodi 5ed Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb y Cynulliad Cenedlaethol: 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Trefniadau i Hyrwyddo Cyfle Cyfartal – Blwyddyn Ariannol 2003-04', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 15 Chwefror 2004.

**Procedural motion**
**Cynigiodd y Trefnydd gynnig trefniadol yn unol â Rheol Sefydlog 6.21 i ymestyn y cyfarfod hyd 6pm ar yr hwyraf.**

**Cynhaliwyd pleidlais**

O blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 1; Cyfanswm 28
**Derbyniwyd y cynnig trefniadol**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 45; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 45
**Derbyniwyd y cynnig**

**......................................**

**5.47pm**
**Cynnig i gymeradwyo newidiadau i'r Rheolau Sefydlog**

NDM2301 Jenny Randerson (Canol Caerdydd)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a Rheol Sefydlog 37:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror;

2. Yn cymeradwyo'r gwelliannau i'r Rheolau Sefydlog a nodir yn Adroddiad y Pwyllgor Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2004; a

3. Yn penderfynu y bydd y newidiadau yn dod i rym yn syth, ac eithrio'r newidiadau i Reol Sefydlog 10, a ddaw i rym ar 20 Mawrth 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 46; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 46
**Derbyniwyd y cynnig**

**......................................**

**5.48pm**
**Cynnig i Atal Rheolau Sefydlog dros dro**

NDM2306 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu yn unol â Rheol Sefydlog 37.5:

Yn atal dros dro y rhan honno o Reol Sefydlog 6.13 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynnig gael ei gyflwyno o leiaf 5 niwrnod gwaith cyn y dyddiad y mae i gael ei drafod, er mwyn caniatáu i NNDM 2305 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 22 Chwefror 2005

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 45; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 45
**Derbyniwyd y cynnig**

**......................................**

**5.49pm**

**Cynnig i gyfeirio’r Mesur Gwahaniaethu ar Sail Anabledd**
**NNDM2305 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn anfon y Mesur Gwahaniaethu ar sail Anabledd a’r Mesur Cydraddoldeb, ar ôl i hwnnw gael ei gyhoeddi,at Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal i’w trafod ymhellach; ac

2. Yn gofyn i’r Pwyllgor Cyfle Cyfartal adrodd i’r Cynulliad cyn gynted ag y bo modd.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 45; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 45
**Derbyniwyd y cynnig**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.50pm**

**......................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mercher, 23 Chwefror 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**
**Dogfennau a Osodwyd ar 16 Chwefror 2005**

Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2005 - LD3508

**Dogfennau a Osodwyd ar 15 Chwefror 2005**

The Pesticides (Maximum Residue Levels In Crops, Food And Feeding Stuffs) (England And Wales) (Amendment) Regulations 2005-Explanatory Memorandum - LD3504 Dim fersiwn Gymraeg ar gael

The Common Agricultural Policy Single Payment and Support Schemes (Wales) Regulations 2005 - LD3505 Dim fersiwn Gymraeg ar gael

Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Trefniadau I Hyrwyddo Cyfle Cyfartal - Blwyddyn Ariannol 2003-2004 - LD3506

Adroddiad Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad mewn perthynas â Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 - LD3507

**Dogfennau a Osodwyd ar 14 Chwefror 2005**

Adroddiad y Pwyllgor Busnes o dan Reol Sefydlog 13.1(iii) - LD3503

The Contaminants in Food (Wales) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - Annex 1a - LD3495 Dim fersiwn Gymraeg ar Gael

The Contaminants in Food (Wales) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - Annex 1b - LD3496 Dim fersiwn Gymraeg ar Gael

The Contaminants in Food (Wales) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - Annex 1c - LD3497 Dim fersiwn Gymraeg ar Gael

The Contaminants in Food (Wales) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - Annex 1d - LD3498 Dim fersiwn Gymraeg ar Gael

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymchwiliadau etc.) (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2005 - Memorandwm Cywiriadau - LD3499

Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) (Diwygio) (Cymru) 2005 - Memorandwm Cywiriadau - LD3500

Rheoliadau Salmonela mewn Heidiau Dodwy (Pwerau Arolygu) (Cymru) 2005 - Memorandwm Cywiriadau - LD3501

Rheoliadau Halogion Mewn Bwyd (Cymru) 2005 - Memorandwm Cywiriadau - LD3502

**Dogfennau a Osodwyd ar 11 Chwefror 2005**

Y Pwyllgor Diwylliant, Y Gymraeg a Chwaraeon - Flaenragen Waith Strategol - LD3488

Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes - Flaenragen Waith Strategol - LD3489

Y Pwyllgor Datblygu Economiadd a Thrafnidiaeth - Flaenragen Waith Strategol - LD3490

Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad - Flaenragen Waith Strategol - LD3491

Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - Flaenragen Waith Strategol - LD3492

Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus - Flaenragen Waith Strategol - LD3493

Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio - Flaenragen Waith Strategol - LD3494

Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) (Dirymu) 2005 - LD3486

Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2005 - LD3487

**Dogfennau a Osodwyd ar 10 Chwefror 2005**

The Local Government (Best Value Performance Indicators) (Wales) (Revocation) Order 2005 - Regulatory Appraisal - LD3473 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*

The Local Government (Best Value Performance Indicators) (Wales) Order 2005 - Regulatory Appraisal - LD3474 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*

Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (Arolygiadau Gofal Iechyd) (Cymru) 2005 - LD3475

The Health and Social Care (Community Health and Standards) Act 2003 (Healthcare Inspections) (Wales) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - LD3476 Dim fersiwn Gymraeg ar gael

Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2005 - LD3477

The Smoke Control Areas (Exempted Fireplaces) (Wales) Order 2005 - Regulatory Appraisal - LD3478 Dim fersiwn Gymraeg ar gael

Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2005 - LD3479

The National Assistance (Sums for Personal Requirements)(Wales) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - LD3480 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*

Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2005 - LD3481

The National Assistance (Assessment of Resources) (Amendment) (Wales) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - LD3482 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) 2005 - LD3483

The National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) (Wales) (Amendment) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - LD3484 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*

The Pesticides (Maximum Residue Levels in Crops, Food and Feeding Stuffs) (England and Wales) (Amendment) Regulations 2005 - LD3485 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*

The Pesticides (Maximum Residue Levels in Crops, Food and Feeding Stuffs) (England and Wales) (Amendment) Regulations 2005 - Schedule - LD3485 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*

**Dogfennau a Osodwyd ar 09 Chwefror 2005**

ESTYN Cyfrifon Adnodd Adrannol 2003-2004 - LD3471